Proffil Rôl Gwirfoddolwyr UCM Cymru
Swyddogion LHDT+

Prif fanylion

Teitl: Swyddog LHDT+ UCM Cymru (Safle Menyw) a Swyddog LHDT+ UCM Cymru (Safle Agored)
Cyfnod yn y Swydd: 1 flwyddyn
Math neu rôl: Gwirfoddolwr rhan amser
Swyddog presennol: Hannah Stewart a Jasper Williams

Ynglŷn ag UCM Cymru

Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yw'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru sy'n cynrychioli dysgwyr mewn ystod o sefyllfaoedd, gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg gymunedol i oedolion a phrentisiaethau.

Mae UCM Cymru yn bodoli er mwyn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau myfyrwyr a datblygu a chefnogi undebau myfyrwyr cadarn. Rydym yn brwydro yn erbyn rhwystrau i addysg; rhoi grym i fyfyrwyr i ffurfio profiad dysgu o ansawdd uchel a'r byd o'u cwmpas; yn ogystal â chynorthwyo undebau myfyrwyr dylanwadol, democrataidd sydd ag adnoddau digonol.

Ynglŷn â'r Ymgyrch

Mae gan UCM Cymru bum ymgyrch ryddhad sy'n gweithio ar faterion sy'n effeithio ar grwpiau penodol o fyfyrwyr. Mae pob un o'r ymgyrchoedd hyn yn hunan-reolus, sy'n golygu eu bod yn cynnal eu cynadleddau eu hunain, yn gosod eu polisi eu hunain ac yn ethol eu swyddogion a'u pwyllgorau. I ymgeisio am rôl ryddhad rhaid i chi hunan-ddiffinio i'r ymgyrch honno.

Mae ein pum ymgyrch ryddhad fel a ganlyn:

- Ymgyrch y Myfyrwyr Croenddu
- Ymgyrch LHDT+
- Ymgyrch Myfyrwyr ag Anableddau
- Ymgyrch yr Iaith Gymraeg
- Ymgyrch y Menywod

Ynglŷn â'r rôl hon

Mae Ymgyrch LHDT+ UCM Cymru'n bodoli i gynrychioli, ymestyn ac amddiffyn hawliau myfyrwyr LHDT+ yng Nghymru. Rydym yn ymgyrch awtonomaidd sy'n golygu bod myfyrwyr LHDT+ ledled Cymru yn llywio ein prosesau penderfynu.

Gydol y flwyddyn, rydym yn gweithio ar feysydd allweddol ar sail ein polisïau i greu effaith cadarnhaol ar fywydau myfyrwyr LHDT+ ledled y wlad. Rydym yn cyflawni hyn drwy weithio gydag undebau myfyrwyr i gynnal ymgyrchoedd, ymchwil, cyfleoedd i ddatblygu a hyfforddiant.

Chi, fel y Swyddogion LHDT+, fydd yn gyfrifol am arwain yr ymgyrch a gweithredu'r polisïau a osodir gan Gynhadledd y Myfyrwyr LHDT+.

Sylwch fod dwy rôl ar gael ac mae un ohonynt wedi'i neilltuo i fyfyrwyr LHDT+ sy'n hunan-ddiffinio fel menyw.

Cyfrifoldebau penodol:

- Arwain gwaith yr Ymgyrch LHDT+ yng Nghymru, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Mynychu Cynhadledd LHDT+ UCM Cymru 2018.
- Cyd-gadeirio Pwyllgor y Myfyrwyr LHDT+ rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 30 Mehefin 2018.
- Mynychu **o leiaf 6 chyfarfod** Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru.
-

Beth allaf i ei ddisgwyl o'r rôl?

Mae bod yn wirfoddolwr yn brofiad gwerthfawr sy'n eich galluogi i wneud gwahaniaeth a chreu gwir effaith ar wella bywydau myfyrwyr. Nid yn unig fydd gwirfoddoli'n rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau newydd mewn dadansoddi a datblygu polisi, byddwch hefyd yn datblygu sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu drwy weithio gyda chyd-aelodau o'r pwyllgor.

Gallwch hefyd ddisgwyl y canlynol:

- Cael eich sefydlu yn eich rôl, yr Ymgyrch LHDT+ a gwaith ehangach UCM.
- Derbyn cefnogaeth gan UCM Cymru, gyda chyfle ar gyfer datblygiad personol a gwella eich gwybodaeth a'ch sgiliau drwy hyfforddiant mewnol.
- Ni fydd gwirfoddolwyr ar eu colled yn ariannol - caiff treuliau rhesymol, megis costau teithio a chynhaliaeth, eu talu gan UCM Cymru.
- Byddwch yn rhan o fudiad myfyrwyr ehangach, yn rhan o fudiad ymgyrchu cenedlaethol a rhyngwladol, ac yn cynrychioli myfyrwyr o bob rhan o'r DU.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf?

Bydd swyddog ardderchog yn frwdfrydig am y cyfle i fod yn rhan o'r broses llunio penderfyniadau yn UCM, ac yn meddu ar ddiddordeb angerddol mewn deall y materion allweddol sy'n effeithio ar fyfyrwyr ar lefel genedlaethol. Hefyd, bydd y Swyddogion:

- Yn ymrwymo i amcanion yr Ymgyrch LHDT+;
- Yn holi cwestiynau craff mewn trafodaethau;
- Yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da;
- Yn angerddol am lywio gwaith Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr tua'r dyfodol;
- Yn deall ac yn cynrychioli barn myfyrwyr LHDT+ yn genedlaethol.

Sut allaf i gyfranogi?

Os yw gwirfoddoli i fod yn un o'r Swyddogion LHDT+ yn apelio atoch, cyfeiriwch yn ôl at y wefan am wybodaeth ynglŷn â sut i enwebu eich hun i sefyll yr etholiad.

Gwybodaeth Allweddol:

- Bydd cyfnod enwebu Swyddogion LHDT+ UCM Cymru yn agor ddydd Mawrth 2 Mai 2017 ac yn cau yn ystod Cynhadledd LHDT+ UCM Cymru 2017.
- Byddwch angen o leiaf 5 enwebiad unigol o 3 gwahanol Undeb Myfyrwyr.
- Os ydych yn llwyddiannus, bydd eich blwyddyn yn y swydd rhwng 1 Gorffennaf 2017 a 30 Mehefin 2018.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r rôl, mae croeso i chi e-bostio conference@nus-wales.org.uk.